Cyngor Cymuned Penmynydd a Star *Community Council*

Datblygiad Cae Chwarae Star

Mae'r Cyngor wedi derbyn grant sylweddol gan Gymdeithas Elusennol Ynys Môn i ddatblygu'r cae chwarae a chreu gofod awyr agored hygyrch. Diolch o galon i bawb fu'n ymwneud â'r cais, gan gynnwys y rhai a helpodd gyda'r ardd flodau gwyllt, plannu'r goedlan newydd, rhannu syniadau, cwblhau arolygon ar-lein a gwirfoddoli eu hamser.

Heb gefnogaeth y gymuned leol ni fyddai'r prosiect hwn wedi bod yn bosibl.

O'n trafodaethau â'r gymuned, y consensws cyffredinol oedd **y dylid datblygu'r safle yn un y gellir ei ddefnyddio gan bob aelod o'r gymuned waeth beth fo'u hoedran neu eu gallu.** Yn sgil hyn aethpwyd ati i gynllunio llecyn gwyrdd cymunedol fel bod pobl yn medru cyfarfod, ymlacio a bod teuluoedd yn medru eistedd tra bod eu plant yn chwarae'n ddiogel.

Gyda chymorth y cwmni offer chwarae Playquest crëwyd y cynllun isod sy'n cynnwys:

- Llwybr i ardal bicnic sy'n addas ar gyfer defnyddwyr cadeiriau olwyn a phramiau.
- Ardal chwarae sy'n cynnwys offer chwarae i bobl ifanc o bob oedran, gôl, ardal blynyddoedd cynnar, llwybr ffitrwydd/hwyl ac offer ar gyfer plant gydag anableddau.
- Meinciau mewn llecynnau tawel fel bod pobl yn medru synfyfyrio a mwynhau natur.
- Offer ecogyfeillgar, wedi ei wneud o blastig wedi ei ailgylchu, a fydd yn para am ddegawdau heb bydru na hollti.



Amserlen

Cam 1: Gostwng y cyrbau wrth y fynedfa a chreu'r llwybr a'r ardal bicnic. (Cwblhawyd)
Cam 2: Gosod meinciau, byrddau picnic a biniau sbwriel ar y safle. (Haf 2023)
Cam 3: Gosod yr offer chwarae newydd ac adnewyddu'r siglen bren. (Hydref 2023)

Oherwydd llwyddiant ein gardd flodau rydym wedi cael ein gwahodd gan Cadwch Gymru'n Daclus i wneud cais am becyn Gardd Tyfu Bwyd. Os oes gan unrhyw un diddordeb mewn creu a chynnal llain lysiau, rhad ac am ddim, gyda thŷ gwydr a sied offer, cysylltwch â ni.

https://www.penmynydd.org/ Cysylltwch/*Contact:* penmynyddcc@gmail.com neu/*or*

Cyngor Cymuned Penmynydd a Star *Community Council*

Star Playing Field Development

The Council has received a substantial grant from the Anglesey Charitable Association to develop the playing field and create an accessible outdoor space. A heartfelt thank you to everyone involved in the application process, including those that helped with the wildflower garden, planting the woodland, sharing ideas and completing online surveys.

Without your support this project wouldn't have been possible.

From our discussions with the community, the consensus was that ***the site should be developed into one that can be used by all members of the community regardless of their age or ability.*** *With this in mind we set out to create a community green space where people can meet, relax and families can sit while their children safely play.*

The design below was created with the help of a play equipment company and includes:

- *A path to a picnic area suitable for wheelchair and pram users.*
- *A play area that includes play equipment for young people of all ages, a goal, a fitness/fun trail, an early-years play area and equipment for children with disabilities.*
- *Benches in quiet locations so that people can reflect and enjoy nature in peace.*
- *Equipment made from environmentally-friendly recycled plastic which does not rot or splinter and will last for decades.*



Star Playing Field Design

Timetable

Stage 1: *Lower the curb at the entrance and create a path and picnic area. (Completed)*
Stage 2: *Place benches, picnic tables and rubbish bins on site. (Summer 2023)*
Stage 3: *Install the new play equipment and renovate the wooden swing. (October 2023)*

Due to the success of our wildflower garden we've been invited by Keep Wales Tidy to apply for a Food Growing Garden package. If anyone is interested in creating and maintaining a free vegetable plot, with a greenhouse and tool shed, please get in touch.

https://www.penmynydd.org/ Cysylltwch/*Contact:* penmynyddcc@gmail.com neu/*or*